**Ymateb Llais i gyhoeddiad Ysgrifennydd y Cabinet ar 'gytundeb newydd' i gleifion: Targedau cliriach, mwy o dryloywder - bydd yn bwysig bod y bobl sy'n defnyddio'r GIG yng Nghymru yn teimlo newid yn gyflym**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cynllun newydd i leihau amseroedd aros y GIG, gwella mynediad at ofal, a "tharo bargen" newydd rhwng y GIG a'r cyhoedd. Fel y corff annibynnol sy'n cynrychioli llais pobl ym maes iechyd a gofal, rydym am rannu ein hymateb.

Rydym yn croesawu'r uchelgais a'r ffocws ar bobl. Bydd yn bwysig llywio'r newid hwn drwy ddefnyddio profiad bywyd pobl, darparu cymorth i staff sy'n gweithio'n galed, a sicrhau ei fod yn cael ei deimlo gan bob un ohonom sy'n defnyddio gwasanaethau'r GIG bob dydd.

## Mae pobl yn dal i aros yn rhy hir

Mae pobl ledled Cymru yn parhau i ddweud wrthym fod arosiadau hir am ganlyniadau profion, diagnosis, a thriniaeth yn achosi rhwystredigaeth a gofid iddynt. Mae'r oedi hwn yn effeithio ar iechyd corfforol a meddyliol pobl, yn niweidio ymddiriedaeth, ac yn gadael pobl yn teimlo'n ansicr ac yn anniogel.

Rydym yn croesawu addewid Ysgrifennydd y Cabinet i fynd i'r afael â'r amseroedd aros hiraf a gwella amseroedd diagnostig. Mae hwn yn gam i'r cyfeiriad cywir ond dim ond os ydynt yn arwain at newid gwirioneddol i bobl y mae targedau o bwys.

## Ffocws ar dryloywder a grymuso i'w groesawu

Rydym yn cefnogi'r ymrwymiad i adrodd ar berfformiad cliriach a defnyddio Ap GIG Cymru i ddarparu diweddariadau amser real. Am gyfnod rhy hir, mae pobl wedi cael eu gadael yn y tywyllwch am eu gofal eu hunain. Credwn fod tryloywder yn meithrin ymddiriedaeth—nid i feio, ond i ddeall a gwella.

Mae gan offer digidol botensial mawr, ond dim ond os ydynt yn gweithio i bawb. Mae allgau digidol yn dal yn broblem wirioneddol mewn nifer o gymunedau. Rhaid i wasanaethau sicrhau bod pawb, waeth beth fo'u hoedran, hyder, neu fynediad at wasanaethau digidol, yn gallu elwa.

### Bargen decach – ond gyda thosturi

Mae "bargen newydd" Ysgrifennydd y Cabinet rhwng y GIG a'r cyhoedd yn cynnwys tynnu pobl oddi ar restrau aros os ydynt yn colli 2 apwyntiad heb reswm da.

Rydym yn deall y pwysau y mae methu apwyntiadau yn ei achosi ar wasanaethau. Ond rydym hefyd yn clywed bob dydd am y rhwystrau y mae pobl yn eu hwynebu wrth gyrraedd apwyntiadau, fel trafnidiaeth wael, ymrwymiadau gwaith, neu ofalu am rywun gartref.

Clywn hefyd nad yw'r ffordd y mae systemau apwyntiadau'r GIG yn gweithio yn aml yn adlewyrchu anghenion pobl, weithiau'n darparu dyddiadau apwyntiadau heb fawr o rybudd, os o gwbl, neu ar adegau sy'n golygu na all pobl sy'n dibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus gyrraedd yno ar amser.

Felly, rhaid i gyflwyniad unrhyw newidiadau ar drin rhestrau aros fod yn deg ac wedi'u hesbonio'n glir a rhaid eu hategu gan welliannau yn y ffordd y mae systemau apwyntiadau'n gweithio fel bod pawb yn cael y cymorth a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt i'w galluogi i gyflawni eu hapwyntiadau.

### Ariannu'r hyn sy'n gweithio – a'i rannu

Rydym yn cytuno y dylai cyllid fynd tuag at yr hyn sy'n gweithio. Ond credwn y dylai llwyddiant gael ei fesur yn ôl profiadau go iawn pobl—nid rhifau yn unig.

Rydym yn gweld enghreifftiau gwych o ofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ledled Cymru.  Mae angen i wasanaethau ddeall a rhannu'r hyn

sy'n gweithio i bobl, a pham, gan y bydd newid yn digwydd yn gyflymach os bydd gwasanaethau'r GIG ledled Cymru yn dysgu oddi wrth ei gilydd.

### Dull newydd o ymdrin â rhestrau aros llawdriniaethau

Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi dweud mai dim ond pobl sy'n ddigon ffit ac iach fydd yn cael eu hychwanegu at restrau aros am driniaeth ar sail tystiolaeth eu bod yn gwella'n gyflymach.

Mae helpu pobl i baratoi ar gyfer llawdriniaeth yn syniad da ond ni ddylai ddod yn rhwystr. Ni ddylai neb gael ei ddal yn ôl oherwydd cyflyrau hirdymor neu heriau iechyd meddwl.

Dylai pawb gael mynediad hawdd a theg at gyngor, gwybodaeth a chymorth cyn triniaeth. Mae angen i bobl wybod beth y gallant ei ddisgwyl, beth a ddisgwylir ganddynt, pa gymorth sydd ar gael, a sut i godi pryderon os ydynt yn anhapus ynghylch eu gofal.

Rydym yn croesawu'r ffocws ar gefnogi iechyd pobl cyn llawdriniaeth a'r ymrwymiad i ddewis gwybodus. Mae hynny'n golygu rhoi gwybodaeth glir i bobl am risgiau a dewisiadau eraill mewn ffordd y maent yn ei deall.

### Amser i weithredu, wedi'i siapio gan bobl

*Dywedodd yr Athro Medwin Hughes, Cadeirydd Bwrdd Llais:*

"Mae'r cyhoeddiad hwn yn gyfle pwysig i ganolbwyntio ein GIG ar y bobl y mae'n bodoli i'w gwasanaethu. Gall targedau a thechnoleg helpu i ysgogi gwelliant ond dim ond os ydynt wedi'u seilio ar brofiadau bob dydd pobl, eu teuluoedd a'u gofalwyr, a staff rheng flaen.

Rhaid cefnogi pobl i fod yn bartneriaid go iawn ar eu taith gofal iechyd eu hunain, wedi'u grymuso gan y cyngor, y wybodaeth a'r cymorth cywir sydd eu hangen arnynt i gael llais cryf yn y ffordd y mae eu GIG yn gweithio iddynt hwy a'r rhai y maent yn gofalu amdanynt ac yn eu cylch."

*Dywedodd Alyson Thomas, Prif Weithredwr Llais:*

“Ein rôl ni yw dal ati i wrando – gwneud yn siŵr bod yr hyn rydyn ni’n ei glywed gan bobl a chymunedau ledled Cymru yn arwain at newid ystyrlon, gweladwy.

Mae hynny’n golygu cefnogi’r GIG i ddarparu’r gwasanaethau sydd eu hangen ar bobl ble bynnag y maent yn byw yng Nghymru a’i ddal yn atebol pan fydd gwasanaethau’n methu.

Byddwn yn canolbwyntio ar helpu i wneud yn siŵr bod pobl yn ymwybodol o’u hawliau, bod pawb yn deall disgwyliadau pobl gan ein GIG, a bod pobl yn cael eu cefnogi i gyflawni eu cyfrifoldebau wrth ddefnyddio gwasanaethau’r GIG – fel bod y berthynas newydd hon rhwng pobl a’r GIG yn adlewyrchu’r hyn sydd bwysicaf i bobl a chymunedau ledled Cymru.”

## Meithrin perthynas gryfach rhwng pobl a’r GIG

Mae hwn yn gyfle i adeiladu perthynas fwy agored a chytbwys rhwng pobl a GIG Cymru yn seiliedig ar barch at ei gilydd, cyfathrebu clir, a rhannu cyfrifoldeb.

Drwy ein gwaith cenedlaethol ar hawliau, disgwyliadau a chyfrifoldebau, rydym am helpu i lywio’r sgwrs honno. A byddwn yn gweithio i sicrhau bod pawb yn gallu cael llais yn y sgwrs honno, yn enwedig y rhai nad yw eu lleisiau bob amser yn cael eu clywed.